

**POLICE AND CRIME PANEL**  
**PANEL HEDDLU A THROSEDD**



**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 15 Medi 2014 at 2.00 pm  
Bodlondeb, Conwy

**RHAGLEN**

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**  
Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth a natur** eu cysylltiadau personol.
3. **Materion Brys**  
Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
4. **Cofnodion** (Tudalennau 3 - 13)  
Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir
5. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**
  - a) Adroddiad diweddar ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd (*i ddilyn*)
  - b) Diweddariad ar Gyllideb 2014/15 (y sefyllfa ar 30 Mehefin 2014) (Tudalennau 14 - 16)
  - c) Amserlen ar gyfer y Praesept Plismona Arfaethedig 2015/16 (Tudalennau 17 - 23)

**6. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

- a) Ymateb i ymgynghoriad ar raglen Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi ar gyfer arolygiadau cyson yr heddlu (Tudalennau 24 - 66)
- b) Adolygiad o aelodaeth Panel yr Heddlu a Throsedd (*i ddilyn*)
- c) Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 67 - 69)

**7. Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Dydd Llun, 10 Tachwedd 2014 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

Cyng Amanda Bragg  
Cyng Glenys Diskin (Cadeirydd)  
Cyng Bob Dutton OBE  
Cyng Philip C. Evans Y.H.  
Cyng Julie Fallon  
Cyng William T. Hughes  
Cyng Colin Powell  
Cyng Bill Tasker  
Cyng Gethin Williams (Is-Gadeirydd)  
Sedd Wag

Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Sir Ynys Mon  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam  
Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Gwynedd  
Cyngor Gwynedd

Patricia Astbury  
Timothy Rhodes

Aelod Annibynnol Cyfetholedig  
Aelod Annibynnol Cyfetholedig

---

## PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

---

Dydd Llun, 2 Mehefin 2014, am 2.00 pm  
Bodlondeb, Conwy

---

YN BRESENNOL: Councillor Glenys Diskin (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Amanda Bragg, Philip C. Evans Y.H.,  
Julie Fallon, Colin Powell a Gethin Williams

Aelod Lleyg/ Aelod Pat Astbury  
Cyfetholedig

Hefyd yn Cynghorydd Bob Dutton OBE  
bresennol:

Swyddogion: Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaidd,  
Rheoleiddio a Chefnogi)), Iwan Siôn Gareth (Cyfieithydd),  
Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a  
Richard Jarvis (Cyfreithiwr)

Hefyd yn Anna Humphreys (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr  
bresennol: Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid,  
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Winston  
Roddick CB QC (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd  
Gogledd Cymru) a Julian Sandham (Dirprwy Gomisiynydd yr  
Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru)

### 107. **PENODI CADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid penodi'r Cynghorydd Glenys Diskin yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2014/15.

#### **PENDERFYNWYD-**

**Penodi'r Cynghorydd Glenys Diskin yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2014/15.**

### 108. **PENODI IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid penodi'r Cynghorydd Gethin Williams yn Is-Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2014/15.

#### **PENDERFYNWYD-**

**Penodi'r Cynghorydd Gethin Williams yn Is-Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2014/15.**

### 109. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Wil Hughes, Charles Jones, Bill Tasker a Tim Rhodes (Aelod Annibynnol).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bob Dutton i'r cyfarfod; byddai'r Cynghorydd Dutton yn cymryd lle'r Cynghorydd Ian Roberts a oedd wedi ymddiswyddo yn ddiweddar o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Swyddfa Gartref.

110. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol nad yw'n rhagfarnu, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

111. **MATERION BRYD**

Dim.

112. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd 17 Mawrth 2014 i'w cymeradwyo.

Mewn perthynas â Chofnod 104 - Cynllun yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru, gofynnwyd am newid y 4<sup>ydd</sup> pwynt bwled yn y trydydd paragraff i ddarllen 'Creu partneriaethau effeithiol'.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2014 fel cofnod cywir yn amodol ar y newid uchod i Gofnod 104 – Cynllun yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru.**

113. **ADRODDIAD DIWEDDARU AR GYFER PANEL YR HEDDLU A THROSEDD**

Darparodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd adroddiad diweddarau i Banel yr Heddlu a Throsedd, a oedd yn canolbwyntio yn bennaf ar swyddogaethau ehangach y Panel o dan Adran 28 (6) Bil Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu penderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Yn ogystal, roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i'r Panel gyflawni ei swyddogaethau o dan Adran 13 (1) o'r Ddeddf.

Amlygodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd meysydd canlynol yr adroddiad:

Adran Un - Craffu ar Heddlu Gogledd Cymru

- Craffodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar berfformiad yr Heddlu trwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol y mae'n ei gadeirio, ac roedd ei aelodaeth yn cynnwys y Prif Gwnstabl ac Uwch Swyddogion.
- Amcan 1 yr Heddlu a Throsedd:

- roedd pedwar mesur a ddefnyddiwyd i fesur perfformiad yr amcan hwn, yn cynnwys 'lefel yr holl droseddau', 'lefel y troseddau seiliedig ar y dioddefwr', 'lefel y troseddau a gafodd eu datrys yn ôl math' a 'lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Roedd yr Heddlu bellach yn gweithio i'r gofynion cofnodi troseddau cenedlaethol newydd; yn flaenorol roedd canlyniad y trosedd yn cael ei gofnodi fel naill ai 'wedi'i ganfod' neu 'heb ei ganfod'; o 1 Ebrill 2014 byddai 18 categori o ganlyniadau, a fyddai'n darparu disgrifiad mwy cywir o ganlyniad y drosedd.
- Roedd cyfraddau datrys yn 28.4%, a oedd yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol; yng ngoleuni'r newidiadau i'r safonau cofnodi, byddai gwaith craffu pellach yn cael ei wneud unwaith y byddai'r data canlyniadau yn fwy cynhwysfawr.
- Roedd yr ystadegau troseddu cenedlaethol ar gyfer Gogledd Cymru yn y flwyddyn yn dod i ben Rhagfyr 2013, yn dangos allan o 21 categori o droseddau, bod 16 yn dangos gostyngiad, gyda 5 yn dangos cynnydd.
- Amcan 2 yr Heddlu a Throsedd: Darparu ymateb effeithiol:
  - Roedd amseroedd ymateb cyffredinol ar hyn o bryd yn sefydlog (yr amser ymateb brys ar gyfartaledd ar gyfer 2013/14 oedd 14.8 munud).
  - Bu gostyngiad yn y % o alwadau gadawedig (galwadau nad ydynt yn cyrraedd gweithiwr trin galwadau dynodedig), o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd yn y Ganolfan Gyfathrebu; y gyfradd galwadau gadawedig ar hyn o bryd oedd tua 2% o alwadau nad ydynt yn rhai brys.
  - Roedd canlyniadau arolygon bodlonrwydd dioddefwyr yn dangos rhywfaint o ddirywiad tua diwedd cyfnod yr arolwg. Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn rhagweld gyda chyflwyniad y Cod Dioddefwyr ac arferion newydd, y byddai'r gyfradd fodlonrwydd yn cynyddu.
- Amcan 3 yr Heddlu a Throsedd: Lleihau niwed a'r risg o niwed:
  - Roedd nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol i Chwefror 2014 yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol (311 o'i gymharu â 295). Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi gofyn i'r Prif Gwnstabl egluro'r cynnydd a byddai'n adrodd yn ôl i'r Panel maes o law.
- Amcan 4 yr Heddlu a Throsedd: Creu partneriaethau effeithiol - byddai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r amcan hwn mewn adroddiadau cyfnodol yn y dyfodol i'r Panel.

#### Adran 2 - Diweddariadau Cyffredinol:

- Mae manylion am gyfarfodydd a digwyddiadau yr oedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi'u mynychu ers y cyfarfod diwethaf wedi eu hatodi i'r cofnodion hyn er gwybodaeth.
- Gwaith Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Adroddiadau Arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi
  - 'Busnes pawb: Gwella ymateb yr heddlu i gam-drin domestig' – roedd adroddiad cenedlaethol a lleol wedi ei gyhoeddi gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, a oedd yn nodi nifer o

ddiffygion a daeth i'r casgliad nad oedd ymateb cyffredinol yr heddlu i ddiodefwrwr cam-drin domestig yn ddigon da.

- 'Cofnodi troseddau: Mater o ffaith - adroddiad interim' – Roedd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi ar hyn o bryd yn cynnal arolygiad ar y ffordd yr oedd 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn cofnodi data am droseddau. Roedd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi adroddiad interim ar y canfyddiadau o 13 o heddluoedd a arolygwyd hyd yma, a oedd yn cynnwys Gogledd Cymru. Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cael sgôr o 93% wrth adrodd am droseddau - allan o'r 78 o achosion, lle y dylid bod wedi cofnodi trosedd, canfu Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi bod 73 wedi eu cofnodi'n gywir. Hon oedd y gyfradd gydymffurfio orau gan unrhyw heddlu yn y rhan hon o'r adroddiad arolygu.
- Cydbwyllgor Archwilio – roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ac roedd croeso i Aelodau'r Panel fod yn bresennol.
- Ffigurau gohebiaeth 1 Ionawr 2014 - 31 Mawrth 2014.

Roedd adran tri yn rhoi diweddariad i'r Panel ar gamau gweithredu a gytunwyd yn flaenorol gyda'r Panel, a oedd yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am fwrghleriaethau (domestig ac annomestig).

Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wrth y Panel, mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd Gweithredol Strategol, adroddwyd bod yr heriau gweithredol presennol yn cynnwys bwrghleriaeth o anheddau a throseddau dwyn o siopau.

Hysbyswyd y Panel bod dwyn o siopau yn un o brif flaenoriaethau'r Heddlu a bod Heddlu Gogledd Cymru yn monitro tueddiadau. Yn ogystal, roedd seminar wedi'i drefnu ar gyfer 13 Gorffennaf 2014, pan fyddai archfarchnadoedd yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol i drafod sut i ddatblygu ymatebion priodol i fynd i'r afael â math hwn o drosedd.

Hefyd dywedodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd wrth y Panel y byddai adroddiadau pellach ar y mater hwn yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol Strategol ym mis Gorffennaf 2014.

Cyfeiriodd y Panel at y cynnydd sylweddol mewn troseddau dwyn o siopau yn nhref Wrecsam. Awgrymwyd efallai bod angen i siopau gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb wrth fynd i'r afael â'r math hwn o drosedd. Mewn ymateb, dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y gallai Heddlu Gogledd Cymru ddim ond gweithredu ar ôl i'r drosedd ddigwydd ac y byddai'r mater o atal trosedd yn cael ei drafod ymhellach gyda'r archfarchnadoedd yn y seminar.

Holodd y Panel hefyd a oedd lefel briodol o adnoddau wedi eu dyrannu i ardaloedd o'r fath; awgrymwyd efallai mai'r amser a gymerir i brosesu troseddau o'r fath oedd yr achos am y cynnydd mewn troseddu, yn enwedig mewn perthynas â byrghleriaeth ddomestig.

Mewn ymateb, hysbysodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Panel fod gan y Prif Gwnstabl yr hbylygrwydd i symud adnoddau o amgylch ardal yr heddlu a throseddau yn cael ei adolygu fel arfer ar sail

ddyddiol. Fodd bynnag, byddai pryderon y Panel yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Prif Gwnstabl.

Cyfeiriwyd hefyd at faterion iechyd meddwl a'r amser a gymerir i brosesu'r mathau hyn o achosion. Cytunodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i edrych ar y mater hwn ymhellach ac adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD-**

(a) Bod Panel yr Heddlu a Throsedd yn nodi'r penderfyniadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a'r wybodaeth a ddarparwyd yn ei adroddiad diweddar.

(b) Bod pryderon Panel yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â lefelau priodol o adnoddau a ddyrannir, yn enwedig i ardal Wrecsam yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Prif Gwnstabl.

(c) Bod yr amser a gymerir i brosesu achosion yn ymwneud â materion iechyd meddwl yn cael ei ymchwilio ymhellach gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

114. **YSTYRIED ADRODDIADAU GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU:**

Er nad oedd yr eitem ar y rhaglen, teimlai Panel yr Heddlu a Throsedd ei bod yn bwysig trafod y mater o ddarparu Teledu cylch caeedig (TCC) yng Ngogledd Cymru.

Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd wrth y Panel fod Awdurdodau Lleol yn gwneud cais i Heddlu Gogledd Cymru am gyllid i helpu gyda darpariaeth TCC (*roedd 6 o gynlluniau gwahanol ar waith yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd*). Oherwydd yr angen i awdurdodau cyhoeddus wneud arbedion, roedd trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch dyfodol a chyllido'r gwasanaeth, fodd bynnag, nid oedd ateb wedi ei ddarganfod hyd yn hyn.

Hysbyswyd y Panel bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cyfrannu dros £1m dros y 11 mlynedd diwethaf i Awdurdodau Lleol, tuag at gostau rhedeg camerâu TCC.

Mewn perthynas â'r penderfyniad a wnaed yn ddiweddar gan Gyngor Sir Ynys Môn i dynnu ei ddarpariaeth TCC yn ôl, dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei fod wedi gwneud ei farn yn glir yn y wasg a'r cyfryngau ei fod yn teimlo ei fod yn gam yn ôl a bod y gwasanaeth yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau diogelwch y cyhoedd ac atal troseddau. Er bod staff wedi eu tynnu'n ôl, nid oedd y cyfleusterau wedi eu datgysylltu, er mwyn caniatáu am gyfnod o fyfyrto.

Er bod hyn yn fater i'r Prif Gwnstabl, byddai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd hefyd yn ymgysylltu â'r ddadl, gan y gallai cydweithio / gweithio mewn partneriaeth fod yn rhan o'r ateb.

Cytunodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd gyda Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mai cydweithio oedd y ffordd ymlaen er mwyn i Awdurdodau Lleol barhau â'r gwasanaeth hwn a chynorthwyo gyda'r gallu i gyflawni Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Cyfeiriwyd at sefydlu Gwasanaeth TCC Rhanbarthol Gogledd Cymru, a gafodd ei ystyried yn flaenorol gan Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, nid oedd pob Awdurdod o blaid y cynllun ac felly cafodd y prosiect ei ddiddymu.

Cytunodd y Panel ei bod yn debygol mai cydweithio / gweithio mewn partneriaeth oedd y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon ymlaen, ac roedd yr Aelodau'n pryderu y byddai tynnu TCC yn ôl yn cael effaith sylweddol ar y gallu i gyflawni Cynllun yr Heddlu a Throsedd.

Dywedodd y Cynghorydd Philip C. Evans Y.H., a oedd wedi bod yn ymwneud yn flaenorol â'r prosiect TCC rhanbarthol, ei bod yn anffodus bod y trafodaethau mewn perthynas â gwasanaeth rhanbarthol wedi digwydd cyn ethol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Er y byddai rhai awdurdodau yn hapus i gydweithio gydag Awdurdodau cyfagos, efallai na fyddai hyn yn wir ar draws Gogledd Cymru.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth), fel ffordd ymlaen, y gallai pryderon y Panel gael eu cyfeirio at y Bwrdd Cymunedau Diogelach, y byddai ef a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei fynychu ddydd Gwener, 6 Mehefin 2014.

Cytunodd y Panel â'r gweithredu arfaethedig ac y dylid rhoi ystyriaeth bellach i weithio mewn partneriaeth, er mwyn sicrhau darpariaeth TCC yng  
Cymru.

#### **PENDERFYNWYD-**

**Bod y Bwrdd Cymunedau Diogelach yn cael gwybod am bryderon Panel yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â dyfodol TCC yng Ngogledd Cymru ac y dylid rhoi ystyriaeth bellach i weithio mewn partneriaeth, er mwyn sicrhau darpariaeth TCC.**

#### **115. ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2013/14 i'r Panel Heddlu a Throsedd.

Roedd Adran Un yr adroddiad yn rhoi manylion y cynnydd ar y gwaith o gyflawni Cynllun yr Heddlu a Throsedd, a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Mawrth 2013, gyda Chynllun diwygiedig yn cael ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2014, yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd a'r Panel Heddlu a Throsedd.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y Canlyniadau Strategol a chanlyniadau arolwg annibynnol i asesu cynnydd yn erbyn cyflawni'r canlyniadau. Yn ogystal, Tuddalen 8 Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd



hefyd fanylion am ddigwyddiadau, prosiectau a chyfarfodydd yr oedd wedi eu mynychu yn ystod y flwyddyn.

Roedd Adran Dau o'r adroddiad yn rhoi manylion cyflawni rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i'r Panel Heddlu a Throsedd, a'u swyddogaethau craidd oedd:

- Sicrhau cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer Gogledd Cymru;
- Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer ei swyddogaethau;
- Dwyn ynghyd partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol; a
- Chydweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd eraill a llunio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd Heddlu.

O fis Ebrill 2014, daeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am y Gronfa Diogelwch Cymunedol ac roedd Atodiad A hefyd yn rhoi manylion dosbarthiad Cronfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2013/14.

Yn unol ag Adran 28, Paragraff 4 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, adolygodd y Panel yr adroddiad blynyddol a gwnaed y sylwadau canlynol.

Mewn perthynas â 'Gwelededd a Hygyrchedd yr Heddlu', a oedd yn un o'r canlyniadau strategol a amlygwyd yn yr adroddiad, holodd y Panel am y lleihad yn nifer y Rheolwyr Rhawd Gymunedol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Gofynnodd y Panel am ragor o wybodaeth mewn perthynas â darparu Rheolwyr Rhawd Gymunedol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ardal yr heddlu a diweddariad ar y cynllun peilot yn y Rhyl.

Cyfeiriodd y Panel hefyd at gynnydd hanesyddol sylweddol yn y praesept ar gyfer darparu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ym mhob ward, fodd bynnag, gan fod cyllid wedi gostwng roedd hyn wedi lleihau nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod y strwythur presennol ar gyfer plismona yn y gymdogaeth ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a bod adolygiad yn yr arfaeth mewn perthynas â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i drosglwyddo pryderon y Panel mewn perthynas â lleihad yn nifer y Rheolwyr Rhawd Gymunedol / Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i'r Prif Gwnstabl a byddai'n rhoi mwy o wybodaeth mewn perthynas â rôl y Rheolwyr Rhawd Gymunedol yn y cyfarfod nesaf.

Derbyniodd y Panel Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2013/14.

#### **PENDERFYNWYD-**

- (a) Bod Panel yr Heddlu a Throsedd yn derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2013/14**

**a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Comisiynydd yn unol ag Adran 28, Paragraff 4 (d) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.**

**(b) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn hysbysu'r Prif Gwnstabl o bryderon y Panel mewn perthynas â lleihau nifer y Rheolwyr Rhawd Gymunedol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ardal yr heddlu, a bod gwybodaeth bellach mewn perthynas â rôl Rheolwyr Rhawd Cymunedol yn cael ei darparu yn y cyfarfod nesaf.**

#### 116. **CYNYDDU NIFEROEDD SWYDDOGION HEDDLU**

Cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ymateb i lythyr Panel yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r cynnydd yn nifer y Swyddogion Heddlu a gaiff eu Sefydlu.

##### **PENDERFYNWYD-**

**Nodi ymateb Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

#### 117. **CYNLLUN LWFANS**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) adroddiad yn gofyn i Banel yr Heddlu a Throsedd ystyried a ddylai'r Cynllun Lwfans ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd wneud darpariaeth ar gyfer:

- Amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn cyfarfod; a
- Amser teithio i ac o leoliad y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi manylion y treuliau a wnaed i Aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer 2013/14, y byddai angen eu cyhoeddi yn unol â Chylch Gorchwyl y Panel Heddlu a Throsedd.

Er nad oedd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol unrhyw awdurdodaeth dros y Panel Heddlu a Throsedd, roedd y Cynllun Lwfans yn seiliedig ar ei daliadau i Aelodau cyfetholedig.

Roedd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol bellach wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol yn dilyn ymarfer ymgynghori ac wedi adolygu'r penderfyniadau mewn perthynas â thalu i'r Aelodau cyfetholedig, o ran bod cyfnod rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod yn gymwys i gael ei gynnwys mewn hawliadau, ynghyd ag amser teithio i ac o leoliad y cyfarfod.

Cytunodd y Panel y dylai'r sefyllfa bresennol barhau ac na ddylai'r penderfyniadau diwygiedig gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gael eu cynnwys o fewn Cynllun Lwfans y Panel Heddlu a Throsedd.

##### **PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod y sefyllfa bresennol yn parhau mewn perthynas â'r Chynllun Lwfans y Panel Heddlu a Throsedd ac nad yw'r**

**penderfyniadau diwygiedig gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â thaliadau i Aelodau cyfetholedig yn cael eu cynnwys o fewn y Cynllun Lwfans.**

**(b) Bod treuliau a dalwyd i Aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer 2013/14 yn cael eu cyhoeddi yn unol â Chylch Gorchwyl y Panel Heddlu a Throsedd.**

#### 118. **GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) adroddiad yn gofyn i Banel yr Heddlu a Throsedd ystyried a ddylai'r cyfarfodydd y Panel Heddlu a Throsedd gael eu gweddarlledu.

Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) wedi caffael system gweddarlledu yn ddiweddar gan ddefnyddio arian grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi'i osod yn Siambr y Cyngor ym Modlondeb, Conwy.

Byddai gweddarlledu cyfarfodydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cynyddu ei broffil a gwelededd, a gwella tryloywder a mynediad y cyhoedd i gyfarfodydd.

Teimlai'r Cyfarwyddwr Strategol y gallai'r costau sy'n gysylltiedig â gweddarlledu cyfarfodydd y Panel Heddlu a Throsedd gael eu cynnwys o fewn grant y Swyddfa Gartref ar hyn o bryd. Fodd bynnag, hysbyswyd y Panel gan fod y system gweddarlledu yn cael ei ariannu ar hyn o bryd gan LIC, os nad oedd arian ar gael ar ôl y peilot, na allai CBSC warantu dyfodol ei gyfleusterau gwe-ddarlledu.

Er bod rhai Aelodau o'r Panel yn cefnogi gweddarlledu cyfarfodydd er mwyn gwella tryloywder a gwelededd, roedd eraill yn teimlo gan nad oedd holl Aelodau'r Panel yn bresennol, y dylai'r mater gael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.

Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd hefyd, er nad oedd yn gwrthwynebu gweddarlledu, roedd angen i'r Panel Heddlu a Throsedd fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau y mae danynt pan ofynnir cwestiynau ar faterion a waherddir.

Cydnabu'r Panel bryderon Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a chytunwyd y byddent yn cymryd arweiniad ar faterion o'r fath ac y gallai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd nodi bod materion yn weithredol ac y byddai angen eu trafod gyda'r Prif Gwnstabl.

Cytunodd y Panel y dylai'r mater gael ei ohirio nes bod gan y Panel nifer lawn o Aelodau. Yn ogystal, cytunodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i ymgymryd ag asesiad risg o oblygiadau gweddarlledu ar rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a hefyd nodi meysydd o arfer da gan Baneli eraill, a oedd ar hyn o bryd yn gweddarlledu eu cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod mater gweddarlleu yn cael ei ohirio nes y bydd gan y Panel Heddlu a Throsedd nifer llawn o Aelodau yn bresennol.**

**(b) Bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cynnal asesiad risg o weddarlleu ar rôl y Comisiynydd, gan gymryd i ystyriaeth arfer da gan Baneli Heddlu a Throsedd eraill, sy'n gweddarlleu ar hyn o bryd.**

119. **CRYNODEB O'R CWYNION A GAFWYD**

Darparodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth) ddiweddariad o ran y camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion a dderbyniwyd gan y Panel Heddlu a Throsedd hyd yma.

Roedd y Panel Heddlu a Throsedd wedi cael 5 cwyn hyd yma, a rhoddwyd gwybod am 3 o'r rhain eisoes i'r Panel ac roeddent rŵan wedi'u cau.

Mewn perthynas â'r 2 gŵyn arall, hysbyswyd y Panel bod y Cyfarwyddwr Strategol yn unol â'r Weithdrefn Cwynion, wedi ymgynghori â 3 Aelod o'r Panel i gytuno ar gamau gweithredu ar gyfer datrysiad lleol.

Roedd y camau a gymerwyd i ddatrys y 2 gŵyn arall wedi'u rhestru ym Mharagraff 4 yr Adroddiad Pwyllgor ac mae'r cwynion hyn wedi eu cau erbyn hyn.

**PENDERFYNWYD-**

**Nodi'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion.**

120. **RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Cyflwynwyd adroddiad i Banel yr Heddlu a Throsedd yn gofyn i ystyriaeth gael ei rhoi i ddatblygu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Craffu ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd gan gymryd i ystyriaeth y ddogfen a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus – Panel yr Heddlu a Throsedd: Y Flwyddyn Gyntaf.

Hysbyswyd y Panel bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cytuno i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i ddatblygu rhaglen waith rhagweithiol ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd.

Roedd meysydd posibl ar gyfer craffu wedi'u rhestru ym Mharagraff 2.6 yr adroddiad a gellid eu cysylltu â gweithgareddau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Croesawodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ddatblygu RhGD, fodd bynnag, gofynnodd am ddiwygio'r ail bwynt bwled ym Mharagraff 2.6 i ddarllen: 'Sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn craffu ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn Amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd'.

Cytunodd y Panel y dylai RhGD gael ei datblygu i gynnwys y meysydd ar gyfer craffu a restrir ym Mharagraff 2.6, yn amodol ar y newid a awgrymwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod y Panel Heddlu a Throsedd yn nodi cynnwys yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, Paneli Heddlu a Throsedd: Y Flwyddyn Gyntaf, fel egwyddorion 'arfer da'.**

**(b) Bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Craffu yn cael ei datblygu sy'n cynnwys y meysydd ar gyfer craffu a restrir ym Mharagraff 2.6 yr adroddiad, yn amodol ar y diwygiad i'r ail bwynt bwled fel a amlygwyd uchod.**

121. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Bydd cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 15 Medi 2014 am 2.00pm, lleoliad i'w gadarnhau.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.35 pm)

---

## Adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu

**Teitl:** Diweddariad ar Gyllideb 2014/15 (y sefyllfa ar 30 Mehefin 2014)

**Cyfarfod:** Panel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, 15 Medi 2014

**Awdur:** Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid

### 1. Rhagymadrodd

1.1 Nod y papur hwn yw rhoi diweddariad i aelodau'r panel ar gyllideb blismona Gogledd Cymru fel yr oedd y sefyllfa ar 30 Mehefin 2014 (mis 3).

### 2. Argymhellion

2.1 Nodi'r adroddiad

### 3. Diweddariad ar gyllideb 2014/15

3.1 Cafodd cyllideb net Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru ei chymeradwyo gan y Panel Heddlu a Throseddu ar 20 Ionawr 2014 ar £141.204m. Ar 30 Mehefin 2014, yr amcanestyniad llawn hyd at ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant net o £0.385m.

3.2 Mae'r amcanestyniadau'n dangos bod y gwariant yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb. Fodd bynnag, o fewn hyn mae nifer o achosion rhagamcanedig o orwariant a thanwariant. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw:

- Gweithwyr – gorwariant rhagamcanedig o £0.564m.  
Effaith net nifer o ffactorau yw hyn; y mwyaf arwyddocaol ohonynt yw:
  - Gorwariant o £0.254m ar Gyflogau Swyddogion yr Heddlu – bydd y polisi recriwtio'n gynnar yn sicrhau bod modd llenwi'r holl swyddi swyddogion heddlu. Gellir ariannu'r gorwariant hwn o'r Gronfa Swyddogion ar Brawf yn unol â'r strategaeth recriwtio.
  - Gorwariant o £0.462m ar Gyflogau Staff Heddlu – mae'r nifer o staff asiantaeth yn gostwng, a disgwylir i'r gorwariant rhagamcanedig hwn leihau yn ystod y flwyddyn.
  - Tanwariant o £0.220m ar lwfansau – mae'r gyllideb wreiddiol yn cynnwys elfennau ar gyfer rhent, tai a grantiau digolledu sy'n daladwy i swyddogion presennol. Wrth i'r swyddogion hynny ymddeol, ni fydd y lwfansau hyn yn daladwy mwyach; cyfrifwyd y tanwariant ar sail amcangyfrif o'r swyddogion a fydd yn ymddeol yn y flwyddyn ariannol hon.
- Cyflenwadau a Gwasanaethau – tanwariant rhagamcanedig o £0.394m
  - Tanwariant o £0.450m ar waith ffrensig. Seiliwyd yr amcangyfrif ar wariant 2013/14 a'r gweithgarwch hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon. Pe bai'r lefel o weithgarwch yn amrywio, yna bydd y costau rhagamcanedig yn newid hefyd. Mae gwaith ffrensig wedi cael ei nodi

fel maes lle gellid gwneud arbedion; os cedwir at y lefel hon o wariant bydd y gyllideb yn cael ei lleihau yn 2015/16.

- Incwm – incwm ychwanegol rhagamcanedig o £0.404m
  - Mae tua hanner yr incwm ychwanegol yn deillio o werthu cerbydau. Mae'r rhaglen amnewid cerbydau ar waith yn llawn erbyn hyn, yn dilyn rhewi gwariant cyfalaf yn 2011/12. Mae hyn wedi arwain at werthu mwy nag arfer o gerbydau yn 2013/14 a 2014/15.
  - Mae'r balans i'w briodoli i nifer o grantiau partneriaeth.

3.3 Ar hyn o bryd, mae'r amcanestyniadau yn dangos bod taliadau cyfalaf, arian wrth gefn a'r gronfa diogelwch cymunedol yn unol â'r gyllideb.

3.4 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau a'r amcanestyniadau isod.

Revenue Budget	YTD	YTD	YTD	YTD	Annual	Full Year	EOY
	Budget	Actual	Est/Comm	Var	Budget	Projection	Variance
Budget 2014-15 as at 30 June 2014	30.6.14	30.6.14	30.6.14	30.6.14	30.6.14	30.6.14	30.6.14
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<b>Expenditure</b>							
Employee Costs	30,080	30,154	379	453	120,716	121,280	564
Premises Costs	1,930	2,015	-	85	8,187	8,002	- 185
Transport Costs	1,118	1,375	-	257	5,193	5,227	34
Supplies and Services	4,103	4,722	-	619	16,911	16,517	- 394
Debt Charges and Contribution to Capital	476	-	-	- 476	1,904	1,904	-
Contingencies and Savings	247	-	-	- 247	989	989	-
Community Safety Fund	292	4	-	- 288	1,166	1,166	-
<b>Gross Expenditure</b>	<b>38,246</b>	<b>38,270</b>	<b>379</b>	<b>403</b>	<b>155,066</b>	<b>155,085</b>	<b>19</b>
<b>Income</b>	<b>- 3,562</b>	<b>- 2,640</b>	<b>-</b>	<b>922</b>	<b>- 14,131</b>	<b>- 14,535</b>	<b>- 404</b>
PFI Reserve	373	-	-	- 373	373	373	-
Speed Awareness Reserve	- 26	-	-	26	- 104	- 104	-
<b>Net Expenditure</b>	<b>35,031</b>	<b>35,630</b>	<b>379</b>	<b>978</b>	<b>141,204</b>	<b>140,819</b>	<b>- 385</b>
Total Grants	- 19,275	-	-	19,275	- 77,102	- 77,102	-
Council Tax	- 16,026	-	-	16,026	- 64,102	- 64,102	-
<b>Funding</b>	<b>- 35,301</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>35,301</b>	<b>- 141,204</b>	<b>- 141,204</b>	<b>-</b>
Contribution (to)/from reserves						- 385	- 385

#### 4. Cyfalaf

4.1 Mae'r rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2014/15 yn £13.9m yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Ar ôl ystyried symiau a gariwyd drosodd o 2013/14, mae hyn yn cynyddu i £15.3m Mae tua 50% o gyllideb gyfalaf 2014/15 wedi cael ei neilltuo i dri phrosiect mawr:

- Prosiect Wrecsam - £4.4m
- Datblygiad Llandudno - £2.75m
- Adleoli ym Mhwillheli - £0.85m

Er y cytunwyd ar yr achosion busnes a bod ymgynghoriad cyhoeddus ar waith erbyn hyn, mae'n debygol y bydd llawer o'r gwariant ar y tri chynllun hwn yn disgyn i flynyddoedd ariannol y dyfodol. Bydd cyllideb y rhaglen gyfalaf yn cael ei hailbroffio pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

- 4.2 O'r £7.3m sy'n weddill, dim ond £0.5m sydd wedi cael ei wario yn ystod y chwarter cyntaf. Er ei bod yn normal i wariant fod yn isel ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, bydd angen ailbroffio cyllidebau llawer o'r prosiectau hyn hefyd, yn enwedig lle maent yn ddibynnol ar adolygiadau eraill sydd ar y gweill.

## 5 Goblygiadau

Amrywiaeth	Dim goblygiadau amrywiaeth ar wahân
Ariannol	Diben yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Panel Heddlu a Throseddu am y sefyllfa fonitro o ran reffeniw a chyfalaf fel yr oedd ddiwedd Mehefin 2014  Mae ariannu digonol yn hanfodol er mwyn gwireddu'r cynllun heddlu a throseddu ac i gyflawni'n gofynion cyfreithiol
Cyfreithiol	Dim goblygiadau risg ar wahân
Risg	Dim goblygiadau risg ar wahân
Y Cynllun Heddlu a Throseddu	Dim goblygiadau ar wahân o ran yr heddlu a throseddu



## Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

**Teitl:** Amserlen ar gyfer y Praesept Plismona Arfaethedig 2015/16

**Cyfarfod:** Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 15 Medi 2014

**Awdur:** Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r amserlen arfaethedig ar gyfer gosod y praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

### 2. Argymhellion

2.1 I Banel yr Heddlu a Throsedd gymeradwyo'r amserlen arfaethedig ar gyfer gosod y praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

### 3. Amserlen

3.1 Mae gan Banel yr Heddlu a Throsedd ran allweddol i'w chwarae wrth bennu lefel y praesept plismona ar gyfer 2015/16. Mae Atodlen 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn nodi rôl y Panel wrth adolygu lefel praeseptau a gynigiwyd gan y Comisiynydd; Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn cynnwys cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref a'r amserlen statudol ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd.

3.2 Os yw manylion y grant plismona yn cael eu cyhoeddi mewn da bryd, gall fod yn bosibl i gyflwyno cynlluniau cyllidebol i'r panel ym mis Rhagfyr; fodd bynnag, mae'n fwy arferol i dderbyn yr wybodaeth hon yng nghanol neu ar ddiwedd mis Rhagfyr, felly ni fydd y Comisiynydd mewn sefyllfa i gyflwyno cynigion cadarn i'r Panel tan fis Ionawr 2015.

3.3 Y bwriad yw y bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r Panel am lefel y praesept arfaethedig ar gyfer 2015/16 ar 12 Ionawr 2015, un wythnos cyn **cyfarfod y Panel ar 19 Ionawr 2015**.

3.4 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r terfynau amser statudol a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru. Os bydd y Panel yn penderfynu gwahardd y praesept arfaethedig, er mwyn cwrdd â therfynau amser lleol am roi bil treth y cyngor, rhaid i'r broses gael ei **chwblhau erbyn 13 Chwefror, 2015**, a byddai angen cynnal cyfarfod arbennig o'r Panel cyn 2 Chwefror:

Gweithgarwch	Terfyn Amser Statudol	Amserlen ar gyfer Gogledd Cymru
Y Comisiynydd i roi gwybod i'r Panel am y praesept arfaethedig	1 Chwefror	12 Ionawr
Y Panel i adolygu a gwneud adroddiad i'r Comisiynydd ar y praesept arfaethedig (p'un a yw'n derbyn neu'n gwrthod y praesept).	8 Chwefror	19 Ionawr
Os yw'r Panel yn penderfynu gwahardd y praesept arfaethedig, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd roi sylw i ac ymateb i adroddiad y Panel, ac i gyhoeddi ei ymateb gan gynnwys praesept diwygiedig.	15 Chwefror	
Y Panel, ar ôl derbyn ymateb gan y Comisiynydd yn eu hysbysu o'r praesept diwygiedig, i adolygu'r praesept diwygiedig a gwneud ail adroddiad i'r Comisiynydd	22 Chwefror	<i>Cyfarfod arbennig o Banel yr Heddlu a Throsedd i'w drefnu cyn 2 Chwefror (os oes angen)</i>
Y Comisiynydd i roi sylw i ac ymateb i ail adroddiad y Panel a chyhoeddi ei ymateb.	1 Mawrth	

#### 4. GOBLYGIADAU

Cydraddoldeb	Dim goblygiadau cydraddoldeb ar wahân
Ariannol	Os nad yw'r praesept yn cael ei benderfynu o fewn yr amserlen statudol, ni fydd gan Heddlu Gogledd Cymru yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn 2015/16.
Cyfreithiol	Mae'r amserlen a awgrymir yn ystyried yr amserlen statudol ar gyfer cynnig a chraffu praesept Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
Cymuned	Mae'n ofynnol i'r praesept ddarparu gwasanaethau heddlu a throsedd i'r cymunedau yng Ngogledd Cymru.
Risg	Mae'r risg yn ariannol, fel y manylir uchod.
Cynllun yr Heddlu a Throsedd	Rhaid i'r praesept gael ei benderfynu, er mwyn cyflawni amcanion Cynllun yr Heddlu a Throsedd.

Canllaw y Swyddfa Gartref  
Paneli yr Heddlu a Throsedd - Craffu ar Braeseptau;

Mae'r nodyn canllaw hwn yn egluro'r broses ar gyfer gwaith craffu panel yr heddlu a throsedd (PHTh) o braesept arfaethedig y comisiynydd heddlu a throsedd (CHTh) a dylid eu darllen ochr yn ochr â:

- Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011; ("y Ddeddf")
- Rhan 2 o Rheoliadau Paneli Heddlu a Throsedd (Praeseptau a Phenodi Prif Gwnstabl) 2012 ("y Rheoliadau")

Mae nodiadau canllaw ar wahân yn amlinellu'r gwaith o graffu penodi prif gwnstabl wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r nodyn canllaw hwn.

### **Cefndir**

Mae Atodlen 5 o'r Ddeddf yn nodi'r broses ar gyfer cyflwyno praesept, gan gynnwys rôl y panel wrth adolygu'r praesept arfaethedig, eu pŵer i wrthod y praesept a'r camau sydd i'w cymryd os ydynt yn gwrthod y praesept arfaethedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi mwy o fanylder i'r Ddeddf, gan gynnwys terfynau amser sy'n berthnasol i gamau'r broses a'r broses ar gyfer adolygu a chyflwyno praesept ddiwygiedig.

Mae **Atodlen 5** angen:

- I CHTh roi gwybod i'r panel am braesept arfaethedig;
- I'r panel adolygu'r praesept arfaethedig;
- I'r panel wneud adroddiad i CHTh ar y praesept arfaethedig (gall hyn gynnwys argymhellion);
- adroddiad y panel (os ydynt yn gwrthod y praesept arfaethedig) i gynnwys datganiad eu bod wedi ei wrthod;
- penderfyniad o wrthod i'w gytuno gan ddwy ran o dair o aelodau'r panel;
- y CHTh i roi ystyriaeth i'r adroddiad a wnaed gan y panel (gan gynnwys unrhyw argymhellion yn yr adroddiad);
- y CHTh i roi ymateb i'r panel am eu hadroddiad (ac unrhyw argymhellion o'r fath);
- y CHTh i gyhoeddi'r ymateb.

Mater i'r panel yw penderfynu sut y dylid cyhoeddi ymateb i adroddiad neu argymhellion.

Os nad yw'n cael ei wrthod ac mae'r CHTh wedi cyhoeddi ei ymateb i adroddiad y panel, gall y CHTh wedyn gyhoeddi'r praesept arfaethedig - neu braesept gwahanol (ond os yw'n unol â'r argymhelliad yn adroddiad y panel i wneud hynny yn unig).

Mae'r **Rheoliadau** angen:

- I CHTH roi gwybod i'r panel am braesept arfaethedig erbyn **1 Chwefror**;
- I'r panel adolygu a gwneud adroddiad i CHTH ar y praesept arfaethedig (os yw'n gwrthod y praesept ai peidio) **erbyn 8 Chwefror**;
- Lle mae'r panel yn gwrthod y praesept, y CHTH i ystyried ac ymateb i adroddiad y Panel, a chyhoeddi ei ymateb, gan gynnwys praesept ddiwygiedig, **erbyn 15 Chwefror**;
- Y Panel, ar ôl derbyn ymateb gan y Comisiynydd yn eu hysbysu o'r praesept diwygiedig, i adolygu'r praesept diwygiedig a gwneud ail adroddiad i'r CHTH **erbyn 22 Chwefror**;
- Y CHTH i roi sylw i ac ymateb i ail adroddiad y Panel a chyhoeddi ei ymateb **erbyn 1 Mawrth**;

### **Adroddiad y Panel ar y praesept arfaethedig**

Os bydd y panel yn methu adrodd i CHTH erbyn 8 Chwefror, bydd y broses graffu yn dod i ben, hyd yn oed os yw'r panel wedi pleidleisio i wahardd y praesept arfaethedig, a gall y CHTH gyhoeddi'r praesept arfaethedig.

### **Ymateb CHTH i wrthod y praesept**

Lle bydd y panel yn gwrthod y praesept arfaethedig, mae'n rhaid i'r CHTH roi ystyriaeth i'r adroddiad a wnaed gan y panel, rhoi ymateb i'r panel am yr adroddiad a chyhoeddi'r ymateb, erbyn 15 Chwefror. Yn ei ymateb, mae'n rhaid i CHTH roi gwybod i'r panel am y praesept diwygiedig mae'n bwriadu ei gyhoeddi.

Lle mae adroddiad y panel yn dangos eu bod wedi gwrthod y praesept am ei fod yn:

- rhy **uchel**, mae'n rhaid i'r praesept diwygiedig fod yn is na'r praesept a gynigiwyd yn flaenorol.
- rhy **isel**, mae'n rhaid i'r praesept diwygiedig fod yn uwch na'r praesept a gynigiwyd yn flaenorol.

Dim ond y praesept arfaethedig cyntaf gaiff y PHTH ei wrthod. Rhaid i wrthod o'r fath gael ei gytuno gan ddwy ran o dair o aelodau PHTH (yr aelodaeth lawn yn hytrach na'r rhai sy'n bresennol mewn cyfarfod). Pan fo gwrthod yn digwydd, rhaid i'r adroddiad i'r CHTH gynnwys datganiad i'r perwyl hwnnw.

### **Adolygiad y Panel o'r praesept diwygiedig**

Ar ôl derbyn ymateb oddi wrth y CHTH yn eu hysbysu o'r cynnig praesept diwygiedig, mae'n rhaid i'r panel adolygu'r cynnig praesept diwygiedig a gwneud ail adroddiad i'r CHTH erbyn 22 Chwefror. Gall yr adroddiad hwn:

- nodi a yw'r panel yn derbyn neu'n gwrthod y praesept diwygiedig (er nad yw gwrthod yn atal y CHTH rhag cyhoeddi'r praesept diwygiedig); a

- gwneud argymhellion, gan gynnwys argymhellion ar y praesept y dylid ei gyhoeddi.

Os bydd y panel yn methu â gwneud ail adroddiad i'r CHTh erbyn 22 Chwefror, gall y CHTh gyhoeddi'r praesept diwygiedig.


### **Cyhoeddi'r praesept**

Ac eithrio lle mae'r panel yn methu ag adrodd ar y praesept arfaethedig erbyn 8 Chwefror neu wneud ail adroddiad ar y praesept diwygiedig erbyn 22 Chwefror, bydd y broses graffu yn dod i ben pan fydd y CHTh yn rhoi ei ymateb i'r panel ar eu hail adroddiad.

Gall y CHTh wedyn:

- gyhoeddi praesept diwygiedig; neu
- gyflwyno praesept wahanol, er:
  - na ddylent gyhoeddi praesept sydd yn uwch na'r praesept diwygiedig os cafodd y praesept diwygiedig ei gostwng yn dilyn adroddiad cychwynnol y panel ar y praesept arfaethedig cyntaf gan nodi y cafodd ei wrthod am ei fod yn rhy uchel;
  - na ddylent gyhoeddi praesept sydd yn is na'r praesept diwygiedig os cafodd y praesept diwygiedig ei chodi yn dilyn adroddiad cychwynnol y panel ar y praesept arfaethedig cyntaf gan nodi y cafodd ei wrthod am ei fod yn rhy isel;

## Y broses ar gyfer craffu PHTh o braesept arfaethedig y CHTh





<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Panel Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru
<b>DYDDIAD:</b>	15 Medi 2014
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogaeth) – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
<b>TESTUN:</b>	Ymateb i ymgynghoriad ar raglen Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar gyfer arolygiadau cyson yr heddlu

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Bod Panel Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru'n ystyried ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (ACEM) ar ei rhaglen newydd ar gyfer arolygiadau cyson ar yr heddlu.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Mae ACEM yn datblygu rhaglen newydd ar gyfer arolygiadau o agweddau ar blismona o ddydd-i-ddydd ym mhob heddlu. Bydd hyn yn galluogi ACEM i astudio'r hyn sy'n digwydd ar y tir yn ardaloedd yr heddlu, nodi a lledaenu arfer gorau ymhlith heddluoedd, a chynyddu'r cyfleoedd y bydd unrhyw broblemau neu fethiannau yn y gwasanaeth yn cael eu darganfod yn gynnar, er mwyn i bethau cael eu rhoi'n iawn cyn iddynt fynd yn fwy difrifol o ran niwed a chost.
- 2.2 Mae Bwrdd ACEM wedi cytuno dull arfaethedig o droi at arolygiadau blynyddol o'r holl heddluoedd, a fydd yn canolbwyntio ar dair thema:
- Pa mor dda mae pob heddlu'n torri troseddau (effeithiolrwydd)
  - Pa mor dda mae pob heddlu'n darparu gwerth am arian (effeithlonrwydd) a:
  - Pha mor dda mae pob heddlu'n darparu gwasanaeth cyfreithlon yn llygaid y cyhoedd (cyfreithlondeb)
- 2.3 Mae llythyr gan ACEM sy'n esbonio'r rhesymau am yr ymgynghoriad ynghlwm yn Atodiad 1; mae crynodeb o'r ymgynghoriad ynghlwm yn



Atodiad 2; ac mae'r ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad, sy'n seiliedig ar 10 cwestiwn ynghlwm yn Atodiad 3.

- 2.4 Mae'r dyddiad cau i'r ymgynghoriad wedi'i ymestyn i ddydd Gwener, 12 Medi 2014; felly gan fod yr adroddiad hwn yn ddogfen gyhoeddus, mae copi drafft o'r ymateb wedi'i gyflwyno i ACEM, a bydd unrhyw newidiadau a wneir gan y Panel yn cael eu hanfon ymlaen at ACEM yn dilyn hynny. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol wybod i ACEM am y cam gweithredu arfaethedig hwn.

### **3. ARGYMHELLION / DEWISIADAU**

- 3.1 Bod Panel Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru'n cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad ar raglen Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi ar gyfer arolygiadau cyson yr heddlu.

### **4. GWYBODAETH GEFNDIR**

- 4.1 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae plismona yng Nghymru a Lloegr wedi mynd trwy newid sylweddol. Mae sefydliadau'r heddlu wedi bod trwy ddiwygiadau mawr. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- creu comisiynwyr heddlu a throseddu a etholwyd yn uniongyrchol i wella atebolrwydd;
- sefydlu Coleg Plismona i osod safonau, gwella proffesiynoldeb a datblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio;
- sefydlu Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig; a
- rhoi mwy o rymoedd ac adnoddau i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

- 4.2 Mae'r ffordd y mae ACEM yn cefnogi gwelliant yr heddlu wedi newid hefyd a bydd yn parhau i addasu i'r oes plismona newydd hwn. Mae ACEM wedi mynd yn fwy annibynnol ar wasanaeth y llywodraeth a'r heddlu, ac yn newid eu dull o arolygu'r 43 heddlu yng Nghymru a Lloegr, er mwyn i'r rhai sy'n ystyried yr heddlu'n atebol – sef y cyhoedd a'r comisiynwyr heddlu a throseddu - gael asesiad dibynadwy, diduedd ac arbenigol o blismona.

- 4.2 Bydd ACEM yn cynnal rhaglen flynyddol newydd o arolygiadau drwy'r heddlu. Bydd yr arolygiadau'n darparu asesiadau hygrych, blynyddol annibynnol ar berfformiad heddluoedd. Byddan nhw'n ei gwneud hi'n bosibl gweld o nifer fach o gategorïau hawdd eu deall o weithgarwch ac asesiad yr heddlu, pa mor dda mae heddluoedd yn perfformio.

Prif nodau'r rhaglen yw:

- gwella atebolrwydd democrataidd effeithiol;
- arolygu mewn ffordd sy'n arwain at y gwelliant mwyaf ymarferol sylweddol mewn gwasanaethau plismona; a
- chynorthwyo wrth ddynodi problemau'n gynnar ac felly'n lleihau'r risg o fethiant.

Bydd ffocws y rhaglen ar dair prif thema:

- effeithlonrwydd: pa mor dda mae heddluoedd yn rhoi gwerth am arian;
- effeithiolrwydd: pa mor dda mae pob heddlu'n torri troseddau; a
- chyfreithlondeb: pa mor dda mae pob heddlu'n darparu gwasanaeth teg ac yn trin pobl yn gywir.

4.3 Bydd yr enw ar gyfer y rhaglen newydd yn adlewyrchu'r themâu hyn. Bydd yr arolygiadau'n cael eu galw'n asesiadau Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu, neu asesiadau PEEL (Police Efficiency, Effectiveness and Legitimacy).

## **5. YMGYNGHORI**

5.1 Cynhaliwyd gwaith ymgynghori gyda holl aelodau'r Panel Heddlu a Throseddau.

## **6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

6.1 Dim.

## **7. RISG**

7.1 Trwy ymateb i'r ymgynghoriad, bydd ACEM yn ymwybodol o safbwyntiau'r Panel Heddlu a Throseddau ar raglen arolygu PEEL arfaethedig.

## **8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD**

8.1 Rhoi cyfle i'r Panel roi sylwadau ar ddull arfaethedig ACEM o droi at raglen arolygu PEEL, fel a osodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

**Thomas P Winsor**  
